




FYDDECH CHI'N CWRDD Â'R DYN WNAETH FWRGLERA EICH TŶ I OFYN PAM?

Mae llawer o ddioddefwyr troseddau wedi dewis gwneud yn union hynny. Yr enw ar y broses yw cyfiawnder adferol ac mae'n dod â dioddefwr trosedd i gysylltiad â'r sawl a droseddodd yn eu herbyn mewn modd diogel.

Mae cyfiawnder adferol yn caniatáu i'r dioddefwr esbonio'r effaith a gafodd y trosedd arnynt, gofyn gwestiynau a cheisio ymddiheuriad. Mae'n annog y troseddwr i gymryd cyfrifoldeb dros ei weithredoedd a gwneud iawn.

"I mi, fe wnaeth cyfiawnder adferol droi'r drol a dydw i ddim yn teimlo fel dioddefwr mwyach. Fi sy'n rheoli erbyn hyn."

Merch i unigolyn a lofruddiwyd.



Mae pob **£1** sy'n cael ei gwario ar gyfiawnder adferol, yn arbed hyd **£8** drwy leihau costau aildroseddu.



Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi addo **£30 miliwn** i'w wario ar gyfiawnder adferol erbyn 2016.

80%

o droseddwyr a gymerodd ran mewn cyfiawnder adferol yn dweud y byddent yn llai tebygol o aildroseddu.



78%

o droseddwyr a gymerodd ran mewn cyfiawnder adferol yn dweud y byddent yn ei argymhell i eraill.

"Cyfiawnder adferol oedd y trobwynt i mi. Pan sylweddolais yr effaith yr oedd fy nhroseddau yn eu cael ar bobl eraill, roeddwn yn teimlo cywilydd ac embaras."

Cyn-leidr.

I ganfod mwy am gyfiawnder adferol ac i gymryd rhan yn y ddadl ewch i www.facebook.com/whatwouldyoudo.rj

Shapland, J et al (2007) Restorative Justice: the views of victims. The third report from the evaluation of three schemes. Cyfres Ymchwil y Weinyddiaeth Cyfiawnder 3/07. Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Shapland, J et al (2008) Restorative Justice: Does Restorative Justice affect reconviction. The fourth report from the evaluation of three schemes. Cyfres Ymchwil y Weinyddiaeth Cyfiawnder 10/08. Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder © Hawlfraint y Goron 2014

OGL